



## Cofnodion Cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**

Ystafell Bwyllgor 6, Neuadd y Ddinas, Abertawe

Dydd Iau, 13 Awst 2020 am 3.00 pm

**Yn bresennol:** C E Lloyd (Cadeirydd) yn llywyddu

Mark Brace, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu  
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe  
Jan Curtice, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru  
Adam Hill, Cyngor Abertawe  
Joanna Maal, Heddlu De Cymru  
Christopher Owen, Llywodraeth Cymru  
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Nuria Zolle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

### **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe  
Deanne Martin, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi  
Rob Stewart, Cyngor Abertawe  
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai

### **Hefyd yn Bresennol**

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe  
Kris Kingsley, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Allison Lowe, Cyngor Abertawe  
Philip McDonnell, Fforwm Amgylcheddol Abertawe

### **36 Croeso.**

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ers pandemig COVID-19, yn enwedig yr aelodau newydd a oedd wedi ymuno â'r Bwrdd yn ddiweddar.

### **37 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

### **38 Cofnodion.**

**Cytunwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

**39 Y Diweddaraf ar Gamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol.**

Dim ond un weithred oedd heb ei datrys. Cadarnhaodd Adam Hill, er bod pethau wedi arafu ychydig oherwydd y pandemig, fod Gweithgor ar y Cyd Rhanbarthol y BGC a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn mynd i'r afael â'r camau gweithredu hyn.

**Cytunwyd** y dylid nodi'r camau gweithredu.

**40 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Derbyniwyd cwestiwn gan Mr Dereck Roberts ynghylch Adroddiad Blynyddol Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe mewn perthynas â thudalen 22, gan nodi bod "Fforymau Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda ar gyfer dinasyddion 50+ oed, a gydlynwyd gan Gyngor Abertawe, wedi bod yn denu mwy o gyfranogwyr dros y flwyddyn ddiwethaf".

Rhoddodd Adam Hill, y Dirprwy Brif Weithredwr, ymateb cynhwysfawr llawn.

**41 Blynyddoedd Cynnar - Cefnogi'r Newidiadau i'r Gwaith Braenaru. (I'w drafod)**

Gofynnodd Adam Hill am gyngor gan y pwyllgor mewn perthynas ag ystod oedran Ffrwd Waith "Y Blynyddoedd Cynnar" a oedd yn gyffredinol yn canolbwyntio ar ystod oedran plant iau 0-3 oed. Er bod Jig-so a'r cynlluniau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cwmpasu'r ystodau oedran iau, roedd yr elfen Braenaru yn cynnwys plant hyd at 7 oed. Holodd a oedd y pwyllgor yn teimlo y dylai'r grŵp ailedrych ar ystod oedran ffrwd waith y Blynyddoedd Cynnar er mwyn ymestyn hyd at 7 oed, a fyddai'n cynnwys y blynyddoedd cynnar a blynyddoedd cyntaf plentyn yn yr ysgol.

Roedd y pwyllgor yn cytuno'n gyffredinol y gellir ymestyn oedran y ffrwd waith hon hyd at 7 mlwydd oed.

**Cytunwyd** y byddai adroddiad yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno i gyfarfod Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn y dyfodol.

**42 Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.**

Diolchodd Adam Hill i'r holl bartneriaid am eu mewnbwn wrth ddrafftio Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2019/2020 a hefyd i Leanne Ahern, Swyddog Cymorth y BGC am gydgysylltu'r gwaith.

Tynnodd sylw at ddau ddiwygiad teipograffyddol ar dudalennau 17 a 44 o'r pecyn a fyddai'n cael eu gweithredu cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2019/2020.

#### 43 Llythyrau oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch:

Trafododd y pwyllgor yn benodol y 2 lythyr ynghylch rhoi'r gorau i ariannu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus tan 2021/2022 a'r Adolygiad o Bartneriaethau Strategol.

Ailadroddodd y pwyllgor y sylwadau blaenorol a wnaed o ran nifer y partneriaethau sector cyhoeddus sy'n gorgyffwrdd a'r cyfyngiadau amser dan sylw. Er y cydnabuwyd bod heriau sylweddol, yn enwedig gyda sefydliadau sy'n lleihau, roedd angen i'r BGC fod yn gwneud gwahaniaeth ac ychwanegu gwerth, gyda bwriad mwy strategol. Nodwyd nad oedd yr argymhellion yn yr adroddiad terfynol yn datrys y problemau a amlinellwyd gan y partneriaid.

Roedd yn siomedig bod y cyllid wedi'i dynnu'n ôl, yn enwedig pan oedd y llythyr adfer yn canolbwyntio ar y gwaith i'w wneud gan y BGC. Er bod yr holl bartneriaid wedi bod yn rhan fawr o'r gwaith o ddarparu cymorth yn ystod pandemig COVID-19, nodwyd bod hyn wedi bod drwy grwpiau rhanbarthol eraill ond nid ar y cyd fel BGC. Cydnabuwyd, fodd bynnag, fod y cysylltiadau a grëwyd gan y BGC wedi dod â'r holl bartneriaid at ei gilydd cyn COVID-19 a diolchodd Adam Hill iddynt i gyd am y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig.

Er mwyn cynorthwyo, awgrymodd Adam Hill y dylid lleihau nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal neu edrych ar fodel cyd-gynhyrchu i gynnal rhywfaint o annibyniaeth tra'n parhau i gydweithio.

Dywedodd Martyn Evans wrth y pwyllgor y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifennu at bob BGC yr wythnos nesaf mewn perthynas â £25,000 ar gyfer pob un o'r BGC dros y 3 blynedd nesaf y gellid ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw achos brys. Croesawyd hyn gan bawb a oedd yn bresennol.

**Cytunwyd** bod y Cadeirydd ac Adam Hill yn drafftio ymateb mewn perthynas â'r Adolygiad o Bartneriaethau Strategol i Lywodraeth Cymru ar ran Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.41 pm

**Cadeirydd**